Tîm Datblygu Chwarae

Cynllun Hyfforddi 2018 -2019

Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan hyfforddwyr gwaith chwarae cymwys a phrofiadol. Mae'r hyfforddiant yn hwyl ac yn chwareus a bydd yr hyfforddwyr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddiwallu anghenion y dysgwyr I GYD. Cofiwch ddweud wrthym sut gallwn wneud i'r hyfforddiant weithio orau i chi pan fyddwch yn archebu.

Gwaetha'r modd, oherwydd cyfyngiadau ariannol, dim ond yn Saesneg fydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Er hynny, gellir gofyn am ddeunyddiau'r cwrs yn y Gymraeg.

Methu gweld beth rydych eisiau?

Rydyn ni eisiau rhoi i'r sector chwarae ac i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc beth maen nhw ei eisiau. Felly, os oes gennych chi anghenion hyfforddi mewn chwarae neu waith chwarae nad ydym yn rhoi sylw iddynt, cofiwch roi gwybod i ni. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddarparu ar eich cyfer.

Os oes gennych chi grŵp o 8 neu fwy, gallwn gynnal y rhan fwyaf o'r cyrsiau yn arbennig ar eich cyfer chi ar ddyddiad ac mewn lleoliad o'ch dewis. Cysylltwch i drefnu (ac fe fydd am ddim yr un fath fel rheol!).

Sylwer: Gan mai Tîm Datblygu Chwarae CONWY ydyn ni, rydyn ni bob amser yn rhoi'r cynnig cyntaf am lefydd hyfforddi i'r rhai sy'n byw neu'n gweithio yng Nghonwy. Os oes llefydd ar ôl ar gyrsiau, efallai y byddwn yn ystyried sefydliadau o'r tu allan i'r sir.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os ydych eisiau archebu lle ar y cyrsiau canlynol, cysylltwch â: playdevelopment@cvsc.org.uk neu ffoniwch: 01492 523 857

Cofiwch mae'r cyrsiau i gyd AM DDIM

Cyflwyniad i Chwarae a Gwaith Chwarae (Gwirfoddolwyr Mewn Chwarae)
24ain Mai 2018,
9:30 – 15:30
Canolfan Hen Lôn yr Ysgol, Church Walks, Llandudno, LL30 2HL

Gwaith Chwarae Ymarferol: Syniadau ac Awgrymiadau Chwareus
22ain Mehefin 2018,
9:30 – 15:30
Canolfan Hen Lôn yr Ysgol, Church Walks, Llandudno, LL30 2HL

Gwaith Chwarae Ymarferol: Rhaffau, Tanau ac Adeiladu Dens
4ydd Gorffenaf 2018,
9:30 – 15:30
Tu Fewn Tu Allan, Colwyn Bay, LL29 7SP

Gwella Eich Amgylchedd Chwarae
11eg Gorffenaf 2018,
13:00 – 15:30
CVSC, 7 Rhiw Road, Bae Colwyn, LL29 7TG

Gweithio ar Gynllun Chwarae Dros y Gwyliau (lefel 2)
23ain, 26ain & 27ain Gorffenaf 2018,
09:30 – 16:00
Canolfan Hen Lôn yr Ysgol, Church Walks, Llandudno, LL30 2HL

Adeiladu Den: Cysgod Naturiol
15fed Medi, 2018
9:30 – 15:30
Conwy RSPB, Llandudno Jct, N Wales Expy, Conwy, LL31 9XZ

Cyflwyniad i Chwarae a Gwaith Chwarae (Gwirfoddolwyr Mewn Chwarae)
6ed Hydref 2018,
9:30 – 15:30
Lleoliad I'w Gadarnhau

Dyfarniad Lefel 3: Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau (MAHPS)
15fe, 22ain, 29ain Hydref & 5ed Tachwedd
9:30 – 15:30
Canolfan Hen Lôn yr Ysgol, Church Walks, Llandudno, LL30 2HL

Cynnal Asesiad Budd Risg yn eich Lleoliad
13eg & 20fed Tachwedd 2018,
18:00 – 20:00
CVSC, 7 Rhiw Road, Bae Colwyn, LL29 7TG

Meddwl am Risg ac Ymddygiad: Cyflwyno dullnewydd o weithredu gydag ymarfer gwaith chwarae
6ed Tachwedd 2018,
09:30 – 13:30
Canolfan Hen Lôn yr Ysgol, Church Walks, Llandudno, LL30 2HL

Gwaith Chwarae Ymarferol: Chwarae gyda'r tu Allan tu Mewn
10fed Rhagfyr 2018,
13:00 – 15:30
Canolfan Hen Lôn yr Ysgol, Church Walks, Llandudno, LL30 2HL

Creu Cymunedau Chwareus
21ain Ionawr 2019,
17:00 – 19:00
Medium Committee Room, Bodlondeb, Bangor Road, Conwy, LL32 8DU

Archwilio Theori Gwaith Chwarae
7fed Chwefror 2019,
09:30 – 15:30
CVSC, 7 Rhiw Road, Bae Colwyn, LL29 7TG

Gwaith Chwarae Ymarferol: Syniadau ac Awgrymiadau Chwareus
15fed Mawrth 2019,
09:30 – 15:00
SPYCE, Rhiw Road, Bae Colwyn, LL29 7TG

Disgrifiadau o'r Cyrsiau

Gallwn addasu cyrsiau i anghenion eich grwp felly cofiwch gysylltu!

Cyflwyniad i Chwarae a Gwaith Chwarae (Gwirfoddolwyr Mewn Chwarae)

Mae'r cwrs yma'n gyflwyniad i chwarae a gwaith chwarae sy'n addas i wirfoddolwyr, y rhai sy'n ystyried gwirfoddoli, gweithwyr ym maes gofal plant, gofal cymdeithasol, chwaraeon a hyd yn oed rhieni sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 2 i 16 oed. Mae'r cwrs yma'n cynnig syniadau ac ysbrydoliaeth ar gyfer chwarae rhydd mewn amrywiaeth o leoliadau chwarae.

Gwaith Chwarae Ymarferol: Syniadau ac Awgrymiadau Chwareus

Bydd y diwrnod hwn yn cynnig llawer o syniadau i roi sypreis i blant a phobl ifanc ac ennyn eu chwilfrydedd. Bydd yn gofyn i ymarferwyr adlewyrchu ar yr amgylcheddau chwarae maent yn eu hwyluso ac yn rhoi atebion ymarferol ar gyfer eu gwneud yn fwy cyffrous.

* Ffafrir gwybodaeth flaenorol am waith chwarae neu bresenoldeb ar un o'n cyrsiau eraill.

Gwaith Chwarae Ymarferol: Rhaffau, Tanau ac Adeiladu Dens

Bydd y cwrs hwn yn caniatáu i ddysgwyr ystyried ffyrdd ymarferol o ymgorffori'r amgylchedd naturiol/awyr agored yn chwarae'r plant. Byddwn yn edrych ar sgiliau ymarferol syml sy'n cefnogi adeiladu strwythurau chwarae yn yr awyr agored, gan gynnwys cyrsiau rhaffau, rhaffau tynn, siglenni coed ac adeiladu den. Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd o gynnwys tân ar gyfer coginio ac ymchwilio - bydd hyn yn cynnwys dysgwyr yn coginio eu cinio eu hunain ar y tân. Yn olaf, byddwn yn trafod sut i gydbwyso risgiau a manteision y mathau hyn o gyfleoedd i chwarae, er mwyn rhoi cyfleoedd i blant hunangyfeirio eu chwarae. Bydd y cwrs hwn o natur ymarferol a bydd llawer ohono'n cael ei gyflwyno yn yr awyr agored – BYDD disgwyl i chi CHWARAE beth bynnag fo'r tywydd!!

Gwella Eich Amgylchedd Chwarae

Bydd y cwrs hwn yn galluogi'r dysgwyr i wella eu hamgylchedd chwarae presennol drwy archwilio a hunanasesu'r chwarae. Bydd y cwrs yn astudio pwysigrwydd y cwricwlwm gwaith chwarae ac yn darparu syniadau ac awgrymiadau ar gyfer darparu llefydd cyffrous, amrywiol a chyfoethog i blant a phobl ifanc chwarae.

*Argymhellir bod gan y dysgwyr gymhwyster gwaith chwarae cyfredol a/neu eu bod wedi mynychu cwrs hyfforddi Cyflwyniad i Chwarae neu'r cwrs Gwirfoddolwyr mewn Chwarae.

Gweithio ar Gynllun Chwarae Dros y Gwyliau (lefel 2)

Mae'r cymhwyster pontio lefel 2 yma'n cymhwyso dysgwyr sydd â lefel 2 perthnasol mewn gofal plant, addysgu neu chwaraeon i weithio ar gynlluniau chwarae dros wyliau'r haf. Wedi'i gymeradwyo gan AGGCC, mae'r cymhwyster yma'n galluogi gweithwyr i ddechrau'r pontio rhwng sectorau eraill a chwarae. Mae'r cwrs yn cynnig cyflwyniad i chwarae a gwaith chwarae a hefyd hyfforddiant ymarferol ar weithio ar gynllun chwarae. Mae'r ffurflen gais ar-lein i'w chael ar: bit.ly/MAHPSform

* Gan mai cymhwyster lefel 2 yw'r cwrs hwn, mae'n ofynnol i'r dysgwyr gwblhau oriau ymarferol a gwaith cwrs.

Adeiladu Den: Cysgod Naturiol

Mae'r cwrs yma'n berffaith ar gyfer unrhyw un sydd eisiau gweithio gyda deunyddiau naturiol fel coed, canghennau, pren a dail ac adeiladu den gyda phlant yn eu lleoliad. Byddwn yn edrych ar y defnydd o'r amgylchedd naturiol a sut gall gefnogi cyfleoedd plant i chwarae.

Dyfarniad Lefel 3: Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau (MAHPS)

Bwriedir i'r Dyfarniad Lefel 3 Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau gynnig cymhwyster i'r rheini sydd wedi cofrestru fel Personau Cyfrifol cynllun chwarae dros y gwyliau gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r cymhwyster yn cynnwys dwy uned:

• Cymhwyso Egwyddorion Gwaith Chwarae i gynllun chwarae

• Gofynion deddfwriaethol a rheoliadol sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli cynllun chwarae yn ystod y gwyliau

Yn ogystal â chefnogi datblygiad proffesiynol staff sy'n rheoli darpariaeth tymor byr I gyflawni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) a gofynion cyfreithiol AGGCC, bydd yn cynnig budd ychwanegol o ddatblygu dealltwriaeth am bwysigrwydd chwarae I ddatblygiad plant a sut y gellir ei hwyluso mewn amrywiol leoliadau. Mae'r ffurflen gais ar-lein i'w chael ar: bit.ly/MAHPSform

Cynnal Asesiad Budd Risg yn eich Lleoliad

Bydd y cwrs hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd asesiad budd risg a'r broses ar gyfer ei weithredu yn eich lleoliad. Bydd yn edrych ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n cadarnhau dull budd-risg o weithredu. Caiff y dysgwyr hyder, cefnogaeth ac adnoddau eirioli i ddechrau gweithredu dull budd risg yn eu lleoliad.

*Mae'n hanfodol bod gan ddysgwyr gymhwyster gwaith chwarae cyfredol a/neu wedi mynychu cwrs hyfforddi Cyflwyniad i Chwarae neu Wirfoddolwyr mewn Chwarae.

Meddwl am Risg ac Ymddygiad: Cyflwyno dullnewydd o weithredu gydag ymarfer gwaith chwarae

Mae'r cwrs hwn yn defnyddio model ABC newydd arloesol Chwarae Cymru i edrych ar asesiad budd – risg ymddygiad plant yn hytrach na gweithgareddau unigol. Bwriad y papur arweiniol mae'r hyfforddiant hwn yn ei weithredu yw cefnogi asesu risg deinamig gan ymarferwyr wrth weithio gyda phlant yn chwarae. Mae'n cydnabod bod ymddygiad plant yn gallu bod yn gymhleth ond bod y ffyrdd y gall niwed difrifol ddigwydd yn debygol o fod yn debyg ar draws gwahanol ffurfiau ar ymddygiad. Er enghraifft, mae'r ffyrdd y gall anaf ddigwydd, a'r ffactorau y mae'n rhaid I ymarferwyr eu hystyried, yn debygol o fod yn debyg os yw plant yn dringo coed, hongian ar raff neu'n llithro i lawr llethr o fwd.
O ganlyniad, mae Chwarae Cymru wedi datblygu arweiniad i gefnogi asesiad budd-risg y gellir ei weithredu gydag ymddygiad amrywiol – yn hytrach na chael llawer o wahanol asesiadau seiliedig ar weithgarwch sydd, yn ymarferol, yn dyblygu ei gilydd.
*Nod yr arweiniad yma yw ategu systemau asesu budd-risg eraill felly mae gwybodaeth flaenorol am asesu budd risg yn hanfodol ar gyfer y cwrs yma.

Gwaith Chwarae Ymarferol: Chwarae gyda'r tu Allan tu Mewn

Bydd y cwrs hwn yn gyfle i'r dysgwyr ystyried ffyrdd ymarferol o gynnwys yr amgylchedd naturiol / awyr agored mewn amgylchedd dan do ar gyfer chwarae plant. Bydd y dysgwyr yn trafod ac yn astudio pwysigrwydd elfennau naturiol mewn chwarae plant. Byddwn yn darparu digon o gyngor ymarferol I sicrhau bod eich amgylchedd chwarae yn un cyfoethog ac amrywiol ar gyfer chwarae plant, hyd yn oed os ydych chi'n brin o le.

* Mae gwybodaeth flaenorol am waith chwarae neu bresenoldeb yn un o'n cyrsiau eraill yn cael ei ffafrio

Creu Cymunedau Chwareus

Mae'r gweithdy hwn ar gyfer Cynghorwyr Tref, Cymuned a Sir, Cymdeithasau Tai, Cynllunio, ERF ac unrhyw un arall y mae ei swydd yn effeithio ar ofod cymunedol. Bydd y gweithdy'n edrych ar syniadau cysylltiedig â beth yw cymunedau chwareus a sut i'w creu gyda chynllun, gofod ac agwedd.

Archwilio Theori Gwaith Chwarae

Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno ac yn astudio theori a syniadau cyfredol gwaith chwarae. Bydd yn herio'r dysgwyr i adlewyrchu ar eu harferion eu hunain gan gyflwyno cysyniadau gwaith chwarae amrywiol a fydd, yn amlach na pheidio, yn darparu mwy o gwestiynau nag o atebion. Bydd y cwrs hwn yn ysbrydoli dysgwyr ac yn sicrhau gwell dealltwriaeth o chwarae plant.

*Mae'n hanfodol bod gan ddysgwyr gymhwyster gwaith chwarae cyfredol a/neu wedi mynychu cwrs hyfforddi Cyflwyniad i Chwarae neu Wirfoddolwyr mewn Chwarae.

Am ddim ond dal yn Werthfawr!

Mae ein cyrsiau'n llenwi'n aml ac mae rhestri aros ar eu cyfer weithiau. Os nad ydych chi'n gallu mynychu cwrs rydych chi wedi archebu lle arno, cofiwch roi gwybod i ni cyn gynted â phosib er mwyn i ni allu cynnig eich lle i rywun arall. Cyllidir Tîm Datblygu Chwarae Conwy gan Deuluoedd yn Gyntaf ac mae'r cyllid hwn yn galluogi i ni gynnal cyrsiau am ddim, cyrsiau y mae'n rhaid i wirfoddolwyr a sefydliadau dalu amdanynt fel rheol. Helpwch ni i barhau i wneud hynny drwy archebu cwrs rydych chi am ei fynychu yn unig.

Ffurflen Archebu Hyfforddiant Datblygu Chwarae

Enw:		
Sefydliad:		
Rhif Ffôn:	**Symudol:**	**E-bost:**

Sut clywsoch chi am y cwrs? (cylchwch)

Cyfryngau cymdeithasol		**Cynllun hyfforddi datblygu chwarae**	
Cynllun hyfforddi EYDCP		**Post datblygu chwarae**	
Post CGGC		**Tafod lleferydd**	
Arall:			

Ydych chi wedi mynychu hyfforddiant gan dîm datblygu chwarae CGGC o'r blaen? (cylchwch)

Gwirfoddolwyr mewn Chwarae (GMCh)		**Theori Archwilio Gwaith Chwarae**	
Gwella eich Amgylchedd Chwarae		**Syniadau ac Awgrymiadau Chwareus**	
Tanau Dens a Rhaffau		**Chwarae gyda'r Tu Allan Tu Mewn**	
Cynnal Asesiad Budd Risg yn eich lleoliad		**Dim**	

Oes gennych chi gymhwyster gwaith chwarae – OES/NAC OES

Os OES, amlinellwch isod

_____
_____
_____

Oes gennych chi unrhyw ofynion penodol i wneud y cwrs yn well i chi?

_____
_____
_____
_____

Tra mae'r cwrs am ddim mae'r llefydd yn brin felly os nad ydych chi'n gallu bod yn bresennol, cysylltwch â'r tîm er mwyn i ni gael rhoi eich lle chi i rywun arall

Diolch i chi am lenwi'r ffurflen